OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2732 (Cy.239)

CAFFAEL TIR, CYMRU

Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*19 Hydref 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Hydref 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer ei bwerau yn adrannau 7(2), 10(2), 11(1) a (3), 12(1), 15(5) a 22 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraffau 2(1) a (3), 3(1) a 6(5) o Atodlen 1 a pharagraff 9 o Atodlen 3 iddi ("y Ddeddf")(**1**), a phob pŵ er arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Hydref 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i orchymyn prynu gorfodol—

(a) sy'n ddarostyngedig i gadarnhad gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac nad yw'r awdurdod caffael, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, wedi cyhoeddi hysbysiad ar wneud y gorchymyn prynu gorfodol yn unol ag adran 11(1) o'r Ddeddf; neu

(b) a baratowyd ar ffurf drafft gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ac nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, wedi cyhoeddi hysbysiad bod gorchymyn prynu gorfodol drafft wedi'i baratoi yn unol â pharagraff 2(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf Adeiladau Rhestredig " ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**); ac

(**1**) 1981 p.67; mewnosodwyd adrannau 11(3) a 15(5) o'r Ddeddf a pharagraffau 2(3) a 6(5) o Atodlen 1 iddi gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5).

(**2**) Mae'r pwerau a enwir yn y Rheoliadau hyn, mewn perthynas â Chymru, gan mwyaf yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adrannau 118(3) a 122(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

(**3**) 1990 p.9.

ystyr "gorchymyn prynu gorfodol clirio" ("*clearance compulsory purchase order*") yw gorchymyn prynu gorfodol a wnaed yn unol ag adran 290 o Ddeddf Tai 1985(**4**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ffurf â Rhif yn gyfeiriad at—

(a) y ffurf sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(b) ffurf a addaswyd, yn ôl y gofyn, o'r ffurf honno sy'n dwyn y Rhif hwnnw er mwyn bodloni amgylchiadau achos penodol; neu

(c) ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg i'r ffurf honno, p'un ai a chafodd ei haddasu ai peidio; ac

(ch) mewn perthynas â ffurf a ganiateir gan is-baragraffau (a) i (c) uchod, y ffurf honno yn Gymraeg neu'n Saesneg, neu'r ddwy iaith.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at adran â Rhif yn gyfeiriad at yr adran honno yn y Ddeddf ac mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at yr Atodlen honno i'r Ddeddf.

Ffurfiau rhagnodedig mewn cysylltiad â gorchmynion prynu gorfodol

3.—(1) At ddibenion adran 10(2) o'r Ddeddf, ffurf y gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio) y mae'n rhaid ei defnyddio yw—

(a) Ffurf 1; neu

(b) os yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf, neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi (tir comin, mannau agored etc.), Ffurf 2; neu

(c) os nad yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi, ond yn darparu ar gyfer rhyddhau'r tir a brynwyd o'r hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion yn unol â'r adran honno neu'r paragraff hwnnw, Ffurf 3.

(2) At ddibenion adran 10(2), ffurf y gorchymyn prynu gorfodol clirio y mae'n rhaid ei defnyddio yw—

(a) Ffurf 4; neu

(b) os yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf, neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi (tir comin, mannau agored etc.), Ffurf 5; neu

(c) os nad yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer breinio tir a roddir yn gyfnewid yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf neu baragraff 6 o Atodlen 3 iddi, ond yn darparu ar gyfer rhyddhau'r tir a brynwyd o'r hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion yn unol â'r adran honno neu'r paragraff hwnnw, Ffurf 6.

(3) At ddibenion—

(a) adran 11(1) o'r Ddeddf a pharagraff 2(1) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad mewn papur newydd; a

(b) adran 11(3) o'r Ddeddf a pharagraff 2(3) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad sydd i'w gosod ar neu gerllaw'r tir sydd yn y gorchymyn,

y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 7.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 4 —

(a) at ddibenion adran 12(1) o'r Ddeddf a paragraff 3(1) o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad i berson cymwys(**5**) y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 8; neu

(**4**) 1985 p.68; diwygiwyd Rhan 9 o Ddeddf 1985 gan Ran 2 o Atodlen 9 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42).
(**5**) I gael y diffiniad o "qualifying person", *gweler* adran 12(2) o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 3(2) o Atodlen 1 iddi.

(b) os gwneir y gorchymyn o dan adran 121 neu 125 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**) ar ran prif gyngor(**7**) neu gyngor cymuned, neu yn unol â chytundeb o dan adran 8 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**8**)) ar ran awdurdod priffyrdd(**8**), y ffurf y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 9.

(5) At ddibenion adran 15 o'r Ddeddf a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi, ffurf yr hysbysiad o gadarnhau (**9**)) neu wneud (**10**) y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 10, ac eithrio pan wneir y cadarnhau gan yr awdurdod caffael yn unol ag adran 14A o'r Ddeddf, ac yn yr achos hwnnw y ffurf y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 11.

(6) At ddibenion adran 22 o'r Ddeddf a pharagraff 9 o Atodlen 3 iddi, ffurf yr hysbysiad mewn papur newydd, sy'n datgan bod tystysgrif wedi cael ei rhoi o dan adran 16 neu 19 o'r Ddeddf neu baragraff 3 neu 6 o Atodlen 3 iddi, y mae'n rhaid ei defnyddio yw Ffurf 12.

Darpariaethau ychwanegol o ran adeiladau rhestredig

4. Os caiff gorchymyn prynu gorfodol ei wneud o dan adran 47 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (caffaeliad gorfodol o adeiladau rhestredig y mae angen eu trwsio), rhaid cynnwys —

(a) yn Ffurf 1, pan fo'n briodol, y paragraff â Rhif 4 yn y Ffurf honno;

(b) ar ddiwedd paragraff 2 o Ffurf 8—

(i) ym mhob achos, y paragraffau ychwanegol yn y nodiadau i Ffurf 8 a rifwyd 3 a 5;

(ii) yn unrhyw achos lle mae angen hysbysiad yn ôl adran 50(3) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (lleiafswm iawndal yn achos adeilad a adawyd i ddadfeilio'n fwriadol) i gynnwys datganiad bod yr awdurdod neu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer lleiafswm iawndal, y paragraff ychwanegol yn y nodiadau i Ffurf 8 â Rhif 4,

ac mae gweddill y paragraffau i'w hailrifo'n unol â hynny.

Dirymu

5. Dirymir Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol 1994(**11**) i'r graddau y byddent yn gymwys i orchymyn prynu gorfodol y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**12**).

D.Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

19 Hydref 2004

(**6**) 1972 p.70.
(**7**) I gael y diffiniad o "principal council", *gweler* adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
(**8**) 1980 p.66.
(**8**) 1980 p.66.
(**9**) I gael ystyr "confirmation notice", *gweler* adran 15(4) o Ddeddf Caffael Tir 1981.
(**10**) I gael y diffiniad o "making notice", *gweler* adran 6(4) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981.
(**11**) O.S. 1994/2145.
(**12**) 1998 p.38.

ATODLEN Rheoliad 2(2)

CYNNWYS

Ffurf 1	Gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio).
Ffurf 2	Gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio) sy'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid.
Ffurf 3	Gorchymyn prynu gorfodol (heblaw gorchymyn prynu gorfodol clirio) nad yw'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid, ond y mae'n darparu ar gyfer rhyddhau o hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion.
Ffurf 4	Gorchymyn prynu gorfodol clirio.
Ffurf 5	Gorchymyn prynu gorfodol clirio sy'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid.
Ffurf 6	Gorchymyn prynu gorfodol clirio nad yw'n darparu ar gyfer breinio tir cyfnewid, ond y mae'n darparu ar gyfer rhyddhau o hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion.
Ffurf 7	Hysbysiad ynghylch gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer cyhoeddiad papur newydd ac arddangos ar neu gerllaw'r tir sy'n destun y gorchymyn.
Ffurf 8	Hysbysiad i berson cymwys o dir (neu dir sy'n ddarostyngedig i hawliau newydd) a geir mewn gorchymyn prynu gorfodol.
Ffurf 9	Hysbysiad i berson cymwys o dir (neu dir sy'n ddarostyngedig i hawliau newydd) a geir mewn gorchymyn prynu gorfodol a wneir ar ran cyngor.
Ffurf 10	Hysbysiad o wneud neu gadarnau gorchymyn prynu gorfodol (gan awdurdod nad yw'n awdurdod caffael).
Ffurf 11	Hysbysiad o gadarnau gorchymyn prynu gorfodol gan awdurdod caffael.
Ffurf 12	Hysbysiad papur newydd o roi tystysgrif o dan adran 16 neu 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 neu baragraff 3 neu 6 o Atodlen 3 iddi.

FFURF 1FFURF GORCHYMYN PRYNU GORFODOL

Rheoliad 3(1)(a)

[GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
( ) *(a)*]

Deddf [ ] *(b)*
a Deddf Caffael Tir 1981

[Deddf(au) [ ] *(b)*]

Mae [*(c)*] (a elwir "yr awdurdod caffael" yn y gorchymyn hwn) yn gwneud y gorchymyn canlynol-

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gorchymyn hwn, awdurdodwyd yr awdurdod caffael, o dan [adran o][a] [pharagraff o Atodlen i][Ddeddf *(b)*], drwy hyn i brynu'n orfodol [ar ran cyngor *(ch)*][y tir][a'r][hawliau newydd dros dir] *(d)* a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion [*(dd)*].

2. [(1) Y tir a awdurdodwyd i'w brynu'n orfodol o dan gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellwyd a'i ddangos [ ] ar fap a gafodd ei baratoi'n ddyblyg, a seliwyd â sêl cyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio "Y map y cyfeirir ato yn [*(a)*]".] *(e)*

[(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol o dan y gorchymyn hwn yn yr Atodlen a dangosir y tir [*(e)*] ar y cyfryw fap.]

3. [Ymgorfforir Rhan[nau] 2 [a 3] o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 drwy hyn gyda'r gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau .] *(f)*

[**4**. O dan adran 50 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf Adeiladau Rhestredig"), mae'r awdurdod caffael yn gwneud y cyfarwyddyd canlynol, ac yntau wedi'i fodloni y caniatawyd yn fwriadol i'r adeilad[au] rhestredig ("yr adeilad[au]") yr awdurdodwyd [ei brynu][eu prynu]*(d)* yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn fynd i gyflwr gwael at ddibenion cyfiawnhau [ei ddymchwel][eu dymchwel] *(d)* a datblygu neu ailddatblygu'r safle neu unrhyw safle cyffiniol: at ddibenion asesu iawndal ac er gwaethaf unrhyw beth i'r gwrthwyneb yn Neddf Iawndal Tir 1961, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, cyfarwyddir drwy hyn y tybir na roddid caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu neu ailddatblygu safle'r Adeilad[au] ac na roddid caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith i ddymchwel, addasu neu estyn yr Adeilad[au], heblaw datblygu neu waith a fyddai'n angenrheidiol i'w [adfer][hadfer] [a'i gynnal][a'u cynnal] *(d)* mewn cyflwr da.] *(ph)*